

---

**OFFERYNNAU STATUDOL**

---

---

**STATUTORY INSTRUMENTS**

---

**2000 Rhif 501 (Cy.21)**

**2000 No. 501 (W.21)**

**Y DRETH GYNGOR, CYMRU**

**Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Gostyngiadau) a (Darpariaethau Trosiannol Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2000**

**COUNCIL TAX, WALES**

**The Council Tax (Reduction Scheme) and (Demand Notices Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2000**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi cynllun ar gyfer lleihau atebolrwydd unigolion penodol yng Nghymru i dalu'r dreth gyngor am y flwyddyn ariannol yn dechrau 1 Ebrill 2000. Maent yn gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer cynnwys, ar hysbysiadau galw am dalu'r dreth gyngor am yr un cyfnod, wybodaeth ynghylch effaith y cynllun gostyngiadau (lle bo'n gymwys) am y flwyddyn.

These Regulations set out a scheme for reducing the liability of certain individuals in Wales to pay council tax for the financial year beginning 1<sup>st</sup> April 2000. They also make provision for council tax demand notices, for the same period, to include information as to the effect (where applicable) of the reduction scheme for the year.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer penderfynu'r gostyngiad yn atebolrwydd person drwy gyfeirio at y gostyngiad priodol, os oes un, am yr ardal gymunedol a'r band prisio perthnasol am yr annedd daladwy.

Mae rheoliadau 5 i 7 yn darparu ar gyfer apelau ynghylch sut mae'r awdurdodau bilio yn cymhwyso neu'n gweithredu'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 8 yn darparu i ddiwygiadau i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 bennu pa wybodaeth sydd i'w chynnwys yn hysbysiadau galw am dalu'r dreth gyngor yn y flwyddyn 2000/2001.

Mae'r Atodlen yn nodi'r ardaloedd cymunedol y rhagnodir gostyngiad mewn perthynas â hwy, ynghyd â'r gostyngiad priodol am bob un o fandiau prisio'r dreth gyngor.

Regulation 4 provides for the reduction of a person's liability to be determined by reference to the appropriate reduction, if any, for the community area and the relevant valuation band for the chargeable dwelling.

Regulations 5 to 7 provide for appeals regarding the application or operation of these Regulations by billing authorities.

Regulation 8 provides for amendments to the Council Tax (Demand Notices) (Wales) Regulations 1993 to specify what information is to be included in council tax demand notices in the year 2000/2001.

The Schedule sets out the community areas in relation to which a reduction is prescribed, together with the appropriate reduction for each council tax valuation band.

## **OFFERYNNAU STATUDOL**

---

## **STATUTORY INSTRUMENTS**

---

**Y DRETH GYNGOR, CYMRU**

**COUNCIL TAX, WALES**

**Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Cynllun  
Gostyngiadau) a (Darpariaethau  
Trosiannol Hysbysiadau Galw am Dalu)  
(Cymru) 2000**

**The Council Tax (Reduction Scheme)  
and (Demand Notices Transitional  
Provisions)(Wales) Regulations 2000**

*Wedi'u gwneud 2 Mawrth 2000*

*Made 2<sup>nd</sup> March 2000*

*Yn dod i rym 11 Mawrth 2000*

*Coming into force 11<sup>th</sup> March 2000*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y  
Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a  
roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau  
13, 113(1) a (2) a 116(1) o Ddeddf Cyllid  
Llywodraeth Leol 1992<sup>(a)</sup> a pharagraffau 1 a 2(4)  
o Atodlen 2 iddi a'r holl bwerau eraill sy'n  
galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cyswllt  
hwinnw sydd bellach wedi'u breinio yng  
Nghynulliad Cenedlaethol Cymru cyn belled ag y  
bo'n arferadwy yng Nghymru<sup>(b)</sup>:*

*The National Assembly for Wales makes the  
following Regulations in exercise of the powers  
conferred on the Secretary of State by sections 13,  
113(1) and (2) and 116(1) of and paragraphs 1  
and 2(4) of Schedule 2 to the Local Government  
Finance Act 1992<sup>(a)</sup> and of all other powers  
enabling the Secretary of State in that behalf  
which are now vested in the National Assembly  
for Wales so far as exercisable in Wales<sup>(b)</sup>:*

**Rhan I**

**Part I**

**Cyffredinol**

**General**

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**Citation, commencement and application**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r  
Dreth Gyngor (Cynllun Gostyngiadau) a  
(Darpariaethau Trosiannol Hysbysiadau Galw am  
Dalu) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 11 Mawrth  
2000.

**1.**-(1) These Regulations may be cited as the  
Council Tax (Reduction Scheme) and (Demand  
Notices Transitional Provisions) (Wales)  
Regulations 2000 and shall come into force on  
11<sup>th</sup> March 2000.

(2) Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn  
unig.

(2) These regulations apply to Wales only.

## Rhan II

### Cynllun Gostyngiadau

#### Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "bwrdeistref sirol" ("*county borough*") yw bwrdeistref sirol yng Nghymru a sefydlwyd o dan Ddeddf 1994;

ystyr "Deddf 1994" ("*the 1994 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994<sup>(c)</sup>;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac ystyr "adran 10" ("*section 10*"), "adran 11" ("*section 11*") ac "adran 12" ("*section 12*") yw adran 10 o'r Ddeddf, adran 11 o'r Ddeddf ac adran 12 o'r Ddeddf, yn eu tro;

ystyr "y Rheoliadau Anableddau" ("*the Disabilities Regulations*") yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gostyngiadau ar gyfer Anableddau 1992<sup>(ch)</sup>);

ystyr "y Rheoliadau Budd-dâl" ("*the Benefit Regulations*") yw Rheoliadau Budd-dâl y Dreth Gyngor (Cyffredinol) 1992<sup>(d)</sup>; ac

ystyr "sir" ("*county*") yw sir yng Nghymru a sefydlwyd o dan Ddeddf 1994.

## Part II

### Reduction Scheme

#### Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Local Government Finance Act 1992 and "section 10" ("*adran 10*"), "section 11" ("*adran 11*") and "section 12" ("*adran 12*") mean section 10 of the Act, section 11 of the Act and section 12 of the Act respectively;

"the 1994 Act" ("*Deddf 1994*") means the Local Government (Wales) Act 1994<sup>(c)</sup>;

"the Benefit Regulations" ("*y Rheoliadau Budd-dâl*") means the Council Tax Benefit (General) Regulations 1992<sup>(d)</sup>;

"county" ("*sir*") means a county in Wales established under the 1994 Act;

"county borough" ("*bwrdeistref sirol*") means a county borough in Wales established under the 1994 Act; and

"the Disabilities Regulations" ("*y Rheoliadau Anableddau*") means the Council Tax (Reduction for Disabilities) Regulations 1992<sup>(e)</sup>.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "ardal gymunedol" ("*community area*") yw ardal sy'n gyfled ag ardal cymuned ar 1 Ionawr 2000; ac mae ardal gymunedol a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn wrth enw cymuned mewn sir neu fwrdeistref sirol yn golygu'r ardal sy'n gyfled ag ardal y gymuned honno ar 1 Ionawr 2000.

(2) In these Regulations "community area" ("*ardal gymunedol*") means an area which is co-extensive with the area of a community as at 1<sup>st</sup> January 2000; and a community area identified in the Schedule to these Regulations by the name of a community in a county or county borough means the area which is co-extensive with the area of that community on 1<sup>st</sup> January 2000.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mewn perthynas â swm y mae person yn atebol am ei dalu mewn perthynas â'r dreth gyngor -

(3) In these Regulations, in relation to an amount a person is liable to pay in respect of council tax -

Yn ddarostyngedig i baragraff (5) isod, mae'r "gostyngiad priodol" ("*the appropriate reduction*") yn golygu'r swm (os oes swm) a ragnodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r ardal gymunedol berthnasol a'r band prisio perthnasol;

Subject to paragraph (5) below "the appropriate reduction" ("*gostyngiad priodol*") means the sum (if any) prescribed in the Schedule to these Regulations in relation to the relevant community area and the relevant valuation band;

ystyr "yr ardal gymunedol berthnasol" ("*the relevant community area*") yw'r ardal gymunedol y mae'r annedd daladwy berthnasol ynddi;

"the relevant community area" ("*yr ardal gymunedol berthnasol*") means the community area in which the relevant chargeable dwelling is situated;

ystyr "yr annedd daladwy berthnasol" ("*the relevant chargeable dwelling*") yw'r annedd daladwy y mae'r person yn atebol am dalu'r swm mewn perthynas â hi; ac

"the relevant chargeable dwelling" ("*yr annedd daladwy berthnasol*") means the chargeable dwelling in respect of which the person is liable to pay the amount; and

yn ddarostyngedig i baragraff (6) isod a heblaw lle mae paragraff (5) isod yn gymwys, ystyr "y band prisio perthnasol" ("*the relevant valuation band*") yw'r band prisio a ddangosir fel yr un sy'n gymwys ar gyfer yr annedd daladwy berthnasol yn rhestr brisio yr awdurdod bilio.

Subject to paragraph (6) below and except where paragraph (5) below applies, "the relevant valuation band" ("*y band prisio perthnasol*") means the valuation band shown as applicable to the relevant chargeable dwelling in the billing authority's valuation list.

(4) Yn y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at berson sy'n atebol am dalu i awdurdod bilio, mewn perthynas ag annedd daladwy berthnasol, swm mewn perthynas â'r dreth gyngor (p'un a yw atebolrwydd y person hwnnw yn unig, neu'n gyd ac unigol), yn cynnwys, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, gyfeiriad at berson a fydd ym marn yr awdurdod yn atebol fel hyn; a dehonglir cyfeiriadau at y swm y mae person yn atebol am ei dalu yn unol â hyn.

### **Gostyngiadau at ddibenion y Rheoliadau Anableddau**

**3.-**(1) Ym mharagraffau (2) a (3) ystyr person cymwys yw person sy'n gymwys at ddibenion y Rheoliadau Anableddau.

(2) Yn y Rheoliadau hyn lle mae person sy'n berson cymwys yn atebol am dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag annedd a restrir ym mand prisio A, y gostyngiad priodol fydd y swm a ddangosir yn y golofn o dan y pennawd A\* yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(3) Lle mae person sy'n berson cymwys yn atebol am dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag annedd a restrir mewn band prisio heblaw band prisio A, dehonglir unrhyw gyfeiriad at y band prisio perthnasol fel pe bai'n gyfeiriad at y band prisio amgen a fyddai'n gymwys yn achos y person hwnnw at ddibenion rheoliad 4 o'r Rheoliadau Anableddau.

### **Cyfrifo'r swm sy'n daladwy**

**4.-**(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) isod -

(4) In these Regulations any reference to a person who is liable to pay to a billing authority, in respect of a relevant chargeable dwelling, an amount in respect of council tax (whether that person's liability is sole, or joint and several), includes, unless the context otherwise requires, a reference to a person who in the opinion of the authority will be so liable; and references to the amount which a person is liable to pay shall be construed accordingly.

### **Reductions for the purposes of the Disabilities Regulations**

**3.-**(1) In paragraphs (2) and (3) an eligible person means an eligible person for the purposes of the Disabilities Regulations.

(2) In these Regulations where a person who is an eligible person is liable to pay council tax in respect of a dwelling listed in valuation band A, the appropriate reduction shall be the amount shown in the column headed A\* in the Schedule to these Regulations.

(3) Where a person who is an eligible person is liable to pay council tax in respect of a dwelling listed in a valuation band other than valuation band A, any reference to the relevant valuation band shall be construed as a reference to the alternative valuation band applicable in that person's case for the purposes of regulation 4 of the Disabilities Regulations.

### **Calculation of amount payable**

**4.-**(1) Subject to paragraph (4) below, where-

(a) os yw person yn atebol am dalu swm ("y swm") i awdurdod bilio mewn perthynas â'r dreth cyngor am ddiwrnod yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2000,

(b) os yw'r swm yn cael ei benderfynu o dan adran 10, ac

(c) os yw'r annedd daladwy berthnasol mewn ardal gymunedol y cyfeirir ati yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn,

(a) a person is liable to pay an amount ("the amount") to a billing authority in respect of council tax for a day in the financial year beginning on 1<sup>st</sup> April 2000,

(b) the amount is determined under section 10, and

(c) the relevant chargeable dwelling is situated in a community area referred to in the Schedule to these Regulations,

caiff y swm ei ostwng drwy dynnu oddi wrtho swm a gyfrifir yn unol â'r fformwla -

R

365

ac R yw'r gostyngiad priodol.

(2) Os yw'r swm a grybwyllir yn is-baragraff 1(a) uchod yn cael ei benderfynu o dan adran 10 wedi'i darllen ag adran 11 neu adran 12, tynnir y didyniad sy'n angenrheidiol o dan baragraff (1) uchod o'r swm gwreiddiol.

(3) Ym mharagraff (2) uchod y swm a fyddai'n cael ei benderfynu o dan adran 10 o'i darllen heb adran 11 ac adran 12 yw'r "swm gwreiddiol" (*"the original amount"*).

the amount shall be reduced by deducting from it a sum calculated in accordance with the formula -

R

365

where R is the appropriate reduction.

(2) If the amount mentioned in sub-paragraph (1) (a) above is determined under section 10 read with section 11 or section 12, the deduction required by paragraph (1) above shall be made from the original amount.

(3) In paragraph (2) above "the original amount" (*"swm gwreiddiol"*) is the amount which would be determined under section 10 read without section 11 and section 12.

(4) Os oes penderfyniad yn dyfarnu budd-dâl y dreth gyngor o dan y Rheoliadau Budd-dâl yn effeithiol ynglyn â'r annedd daladwy ar gyfer diwrnod y mae person yn atebol am dalu'r swm a grybwyllir yn is-baragraff 1(a) uchod mewn perthynas â'r annedd honno, y swm y mae'r person hwnnw'n atebol am ei dalu fydd -

(a) y swm a geir yn unol â pharagraff (1) uchod, neu baragraffau (1) a (2) uchod, yn ôl fel y digwydd, am y diwrnod hwnnw, llai

(b) budd-dâl treth cyngor y person hwnnw am y diwrnod hwnnw.

(4) Where a determination awarding council tax benefit under the Benefit Regulations is effective as regards the chargeable dwelling for a day in respect of which a person is liable to pay the amount mentioned in sub-paragraph (1)(a) above in respect of that dwelling, the amount which that person is so liable to pay shall be-

(a) the amount ascertained in accordance with paragraph (1) above, or paragraphs (1) and (2) above, as the case may be, for that day, less

(b) that person's council tax benefit for that day.

## Apelau

5.-(1) Pan fydd awdurdod bilio yn gwneud penderfyniad ynghylch sut mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu cymhwyso neu eu gweithredu mewn perthynas ag unigolyn, os bydd y person yr effeithir arno yn gofyn yn ysgrifenedig, rhaid i'r awdurdod roi datganiad ysgrifenedig i'r person hwnnw o'i benderfyniad a'r rheswm drosto; a rhaid anfon unrhyw ddatganiad o'r fath o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y gofynnir amdano neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedyn.

(2) Ni ellir gwneud apêl i dribiwnlys prisio mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad gan awdurdod bilio sy'n cyfeirio at sut mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu cymhwyso neu eu gweithredu yn unig; ond fe all person a dramgwyddir gan benderfyniad o'r fath apelio at fwrdd adolygu a benodir gan yr awdurdod bilio ac a gyfansoddir fel y'i crybwyllir yn rheoliad 70(3) o'r Rheoliadau Budd-dâl.

## Hysbysu apêl

## Appeals

5.-(1) Where a billing authority makes a decision relating to the application or operation of these Regulations in relation to an individual, the authority shall, if requested in writing by the person so affected, provide that person with a written statement of its decision and the reason for it; and any such statement shall be sent within 14 days from the date on which it is requested or as soon as is reasonably practicable thereafter.

(2) No appeal may be made to a valuation tribunal in respect of any decision of a billing authority relating solely to the application or operation of these Regulations; but a person aggrieved by such a decision may appeal to a review board appointed by the billing authority and constituted as mentioned in regulation 70(3) of the Benefit Regulations.

## Notice of appeal



6. Rhaid i apelydd hysbysu apêl o dan y Rheoliadau hyn yn ysgrifenedig i'r awdurdod bilio o fewn 4 wythnos o'r dyddiad y mae'r awdurdod bilio yn anfon y datganiad a grybwyllir yn rheoliad 5(1) uchod at yr apelydd.

### **Gweithdrefn apelau**

7.-(1) Bydd rheoliadau 71(2) i (9) a 72(4) a (5) o'r Rheoliadau Budd-dâl yn gymwys gyda'r newidiadau angenrheidiol at ddibenion apêl o dan y Rheoliadau hyn fel y maent yn gymwys at ddibenion adolygiad pellach.

(2) Rhaid i awdurdod bilio gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan ei fwrdd adolygu.

## **Rhan III**

### **Hysbysiadau Galw am Dalu – Darpariaethau Trosiannol**

#### **Hysbysiadau Galw am Dalu – Darpariaethau trosiannol am y flwyddyn ariannol yn dechrau 1 Ebrill 2000**

8.-(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Rheoliadau Hysbysiadau Galw am Dalu" (*"the Demand Notices Regulations"*) yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993<sup>(dd)</sup>.

(2) Am y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2000 bydd Atodlen 1 i'r Rheoliadau Hysbysiadau Galw am Dalu yn effeithiol fel pe bai -

6. An appellant shall give notice of appeal under these Regulations in writing to the billing authority within 4 weeks of the date on which the statement referred to in regulation 5(1) above is sent by the billing authority to the appellant.

### **Procedure for appeals**

7.-(1) Regulations 71(2) to (9) and 72(4) and (5) of the Benefit Regulations shall apply with the necessary modifications for the purposes of an appeal under these Regulations as they apply for the purposes of a further review.

(2) A billing authority shall comply with any decision of its review board.

## **Part III**

### **Demand Notices – Transitional Provisions**

#### **Demand Notices – Transitional provisions for the financial year beginning 1st April 2000**

8.-(1) In these Regulations "the Demand Notices Regulations" (*"y Rheoliadau Hysbysiadau Galw am Dalu"*) means the Council Tax (Demand Notices) (Wales) Regulations 1993<sup>(f)</sup>.

(2) For the financial year beginning on 1<sup>st</sup> April 2000 Schedule 1 to the Demand Notices Regulations shall have effect as if-

(a) yr is-baragraffau canlynol wedi'u hychwanegu ar ôl paragraff 6 (1) -

"(1A) Where the dwelling to which the notice relates is situated in a community area referred to in the Schedule to the Council Tax (Reduction Scheme) and (Demand Notices Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2000, a statement as regards-

(a) the relevant community area, and

(b) the relevant valuation band,

of the amount prescribed in the Schedule to the Council Tax (Reduction Scheme) and (Demand Notices Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2000.

(1B) In sub-paragraph (1A) above, "community area" and "the relevant valuation band" have the meanings given in the Council Tax (Reduction Scheme) and (Demand Notices Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2000"; a

(b) y paragraff canlynol wedi'i ychwanegu ar ôl paragraff 13 –

"13A. As regards any case to which regulations made under section 13 of the 1992 Act apply so that the amount required to be paid under the notice is less than it would be apart from those regulations, a statement of the amount of the reduction."

(a) after paragraph 6(1) there were added the following sub-paragraphs-

"(1A) Where the dwelling to which the notice relates is situated in a community area referred to in the Schedule to the Council Tax (Reduction Scheme) and (Demand Notices Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2000 a statement as regards-

(a) the relevant community area, and

(b) the relevant valuation band,

of the amount prescribed in the Schedule to the Council Tax (Reduction Scheme) and (Demand Notices Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2000.

(1B) In sub-paragraph (1A) above, "community area" and "the relevant valuation band" have the meanings given in the Council Tax (Reduction Scheme) and (Demand Notices Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2000"; and

(b) after paragraph 13 there were added the following paragraph –

"13A. As regards any case to which regulations made under section 13 of the 1992 Act apply so that the amount required to be paid under the notice is less than it would be apart from those regulations, a statement of the amount of the reduction."

(2) Am y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2000 bydd Rhan I o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Hysbysiadau Galw am Dalu yn effeithiol fel pe bai -

(a) yr is-baragraff canlynol wedi'i ychwanegu o dan is-baragraff (b) o baragraff 6 -

"(ba) grant under section 88A of the Local Government Finance Act 1988;" a

(b) y paragraff canlynol wedi'i ychwanegu ym mharagraff 15(b), ar ôl paragraff (iii) -

"(iiia) a person may be liable to pay an amount in respect of council tax which, by virtue of the provisions of the Council Tax (Reduction Scheme) and (Demand Notices Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2000, is less than the amount it would be apart from those Regulations;" .

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998<sup>(e)</sup>

2 Mawrth 2000

Dafydd Elis Thomas

Llywydd y Cynulliad

(2) For the financial year beginning on 1<sup>st</sup> April 2000 Part I of Schedule 2 to the Demand Notices Regulations shall have effect as if-

(a) after sub-paragraph (b) of paragraph 6 there were added the following sub-paragraph-

"(ba) grant under section 88A of the Local Government Finance Act 1988;" and

(b) in paragraph 15(b), after paragraph (iii) there were added the following paragraph-

"(iiia) a person may be liable to pay an amount in respect of council tax which, by virtue of the provisions of the Council Tax (Reduction Scheme) and (Demand Notices Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2000, is less than the amount it would be apart from those Regulations;" .

Signed on behalf of the National Assembly under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998<sup>(g)</sup>

2nd March 2000

Dafydd Elis Thomas

The Presiding Officer of the Assembly

(a) 1992 p.14; *gweler* adran 116(1) i gael diffiniad o 'prescribed'.

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672).

(c) 1994 p. 19.

(ch) O.S.1992/554; gwnaed diwygiadau perthnasol gan O.S.1993/195 ac O.S. 1999/1004.

(d) O.S.1992/1814; y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(dd) O.S.1993/255, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/160, O.S.1996/310 ac O.S.1998/267.

(e) 1998 p.38

(a) 1992 c.14; *see* section 116(1) for the definition of prescribed.

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 1994 c.19.

(d) S.I. 1992/1814; to which amendments have been made which are not relevant to these Regulations.

(e) S.I. 1992/554; relevant amendments are made by S. I. 1993/195 and S.I. 1999/1004.

(f) S.I. 1993/255, amended by S.I. 1995/160, S.I. 1996/310 and S.I. 1998/267.

(g) 1998 c.38.

